# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 23 Chwefror a 4 Mawrth 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

7 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

12 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

16 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Swyddfa Newydd Cynulliad Cymru yn Efrog Newydd

**Nick Bourne:** Faint o bobl sydd wedi ymweld â swyddfa newydd Cynulliad Cymru yn Efrog Newydd ers iddi agor? (WAQ32632)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae dros 100 o bobl eisoes wedi ymweld â'r swyddfa ond, hyd yma, bu'r ffocws ar sefydlu busnes craidd y swyddfa. Agorwyd hi'n swyddogol gan Andrew Davies ar 1 Mawrth, a bydd ar gael yn awr i fuddiannau Cymreig yn gyffredinol. Rhoddir cyhoeddusrwydd eang i'r ffaith ei bod ar gael ac i'r cyfleusterau ynddi.

### Canolfannau Rhyngwladol Cymru

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i ymweld â chanolfannau rhyngwladol Cymru pan agorir hwy? (WAQ32778)

**Y Prif Weinidog:** Nid oes gennyf gynlluniau i wneud hynny ar hyn o bryd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Hyrwyddo Atyniadau Ymwelwyr

**Nick Bourne:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo atyniadau ymwelwyr yng Nghymru? (WAQ32435)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae gan Gymru lawer o sefydliadau, cyfleusterau a digwyddiadau diwylliannol, sy'n bwysig o ran cyfrannu at atyniad Cymru fel cyrchfan i dwristiaid. Mae'r rhain yn cynnwys atyniadau diwylliannol, megis y safleoedd hanesyddol a'r henebion o dan ofal Cadw, chwe safle Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, amryw eisteddfodau a gwyliau yn amrywio o ŵyl lenyddiaeth y Gelli Gandryll i ŵyl jazz Aberhonddu.

Mae llawer o bartneriaid diwylliannol Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda Bwrdd Croeso Cymru i roi strategaeth twristiaeth ddiwylliannol y bwrdd ar waith. Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith gweithredu er mwyn inni fanteisio ar ein diwylliant unigryw er budd y sector twristiaeth a'r sector diwylliannol fel ei gilydd. Ceir yn rhaglen weithredu'r strategaeth raglen thematig benodol a fwriadwyd i'w gwneud yn haws i ymwelwyr fwynhau diwylliant Cymru, er enghraifft drwy annog y sectorau diwylliannol a thwristiaeth i gyfeirio pobl at atyniadau, canolfannau a digwyddiadau cyffelyb.

### Nofio Rhad ac am Ddim i Bobl Hŷn

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar yr hyn sydd wedi'i wneud hyd yma i gyflawni'r addewid i gyflwyno nofio rhad ac am ddim i bobl hŷn? (WAQ32640)

**Alun Pugh:** Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw'r addewid hwn a oedd yn un o'r 10 prif addewid yn ei maniffesto. Mae adroddiad gwerthuso Cyngor Chwaraeon Cymru ar y peilot nofio am ddim i bobl ifanc bellach yn rhoi sylfaen tystiolaeth inni y gallwn ei defnyddio i gynllunio cynllun peilot ar gyfer pobl hŷn. Dros y misoedd nesaf, bydd y gweithgor a sefydlwyd mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, prif swyddogion hamdden yr awdurdodau lleol, Cymdeithas Nofio Amatur Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru yn cytuno ar y meini prawf ar gyfer y peilot a maint y peilot fydd yn cael ei roi ar waith yn yr hydref.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Ariannu Gwelliannau i Wasanaethau Rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru

**Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch darparu cymorth gan y Cynulliad i ariannu gwelliannau i wasanaethau rheilffyrdd yng ngogledd Cymru? (WAQ32532)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Cyfarfûm â Mr Bob Davies, prif weithredwr Arriva Trains Wales ar 11 Tachwedd 2003, a thrafodasom welliannau i'r gwasanaethau rheilffyrdd yng ngogledd Cymru, yn cynnwys gwelliannau i'r gorsafoedd. Byddwn yn ariannu gwelliannau bach i orsafoedd yn yr ardal ac yr ydym wedi neilltuo £750,000 yn 2004-05. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal i ddarparu cymorth ar gyfer gwasanaethau trên rhwng y Gogledd a'r De, ac yr ydym wedi ymrwymo i gytundeb gyda Arriva Trains Wales i barhau â'r ariannu hyn.

### Cyllidebau WDA a Bwrdd Croeso Cymru

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllidebau Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru? (WAQ32535)

**Andrew Davies:** Mae dyraniadau cyllideb y Cynulliad wedi eu dangos yn y llythyrau cylch gwaith drafft a ystyriwyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 25 Chwefror. Eglurodd fy mhapur fod y llythyrau yn cynnwys y fframwaith ar gyfer cynlluniau gweithredol Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru, a fydd yn adlewyrchu'r trafodaethau ynglŷn â lefel debygol y derbyniadau o ffynonellau eraill.

### Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (Datblygiadau Diweddaraf)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau diweddaraf o ran y rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd? (WAQ32536)

**Andrew Davies:** Mae dros £800 miliwn o grantiau o raglenni'r cronfeydd strwythurol wedi cael ei rhwymo i dros 1,720 o brosiectau, sy'n cynrychioli buddsoddiad o oddeutu £2 biliwn. Mae dros £395 miliwn eisoes wedi cael ei dalu i brosiectau. Mae'r prosiectau a gymeradwywyd wedi adrodd y crëwyd bron i 24,000 o swyddi crynswth newydd ac y diogelwyd dros 32,000 o swyddi.

### Datblygu Economaidd yn Ne-ddwyrain Cymru

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu economaidd yn ne-ddwyrain Cymru? (WAQ32537)

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi darparu cymorth ariannol i fforwm economaidd y De-ddwyrain i'w helpu i baratoi strategaeth economaidd ar gyfer y rhanbarth. Ers sefydlu Llywodraeth y Cynulliad, mae 496 o brosiectau wedi cael cymorth ar ffurf cymorth rhanbarthol dewisol neu grantiau buddsoddi'r Cynulliad yn y De-ddwyrain ac mae bron i £155 miliwn wedi cael ei gynnig mewn grantiau. Disgwylir i'r prosiectau hyn greu bron i 14,000 o swyddi newydd a diogelu neu gynnal bron i 5,500 o swyddi eraill. Yr oedd y lefel gyflogaeth dros y pedwar chwarter hyd at fis Tachwedd 2003 59,000 yn uwch yn y De-ddwyrain nag yn 1999. Mae hynny'n gynnydd o 9.7 y cant.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Cyflogau Athrawon

**Leighton Andrews:** Pa awdurdodau lleol sy'n talu ysgolion ar sail cyflogau gwirioneddol athrawon yn hytrach na chyflogau cyfartalog? (WAQ32582)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu'n ganolog.

### Darpariaeth Addysg Rhyw

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y ddarpariaeth addysg rhyw—natur yr addysg a'r cyllid a ddyrannwyd—yn ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru er mwyn gostwng nifer y merched sy'n beichiogi'n ddieisiau? (WAQ32602)

**Jane Davidson:** Mae addysg rhyw yn rhan o'r cwricwlwm ysgol, yn dod o fewn terfynau addysg bersonol a chymdeithasol. Nod ABCh yw meithrin gwybodaeth a sgiliau ar gyfer bywyd fel oedolyn, a chynorthwyo pobl ifanc i sefydlu agweddau a gwerthoedd. Mae'r 10 agwedd yn y fframwaith ABCh, a gynhyrchwyd gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, yn cynnwys agweddau cymdeithasol, rhywiol, emosiynol a moesol y dylai disgyblion ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ohonynt. Drwy seilio rhyw a pherthnasoedd o fewn ABCh gallwn felly sicrhau bod disgyblion yn cael eu hannog i archwilio agweddau, gwerthoedd a'r ffordd y maent yn rheoli eu perthnasoedd personol pan fydd yn cael ei dysgu yn yr ysgol.

Cyhoeddwyd canllawiau gan y Cynulliad o dan yr enw 'Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion' ym mis Gorffennaf 2002. Fel y mae'r teitl yn ei ddangos, mae'n pwysleisio pwysigrwydd dysgu a deall am berthnasoedd. Ar y cyd â'r fframwaith ABCh, mae'r canllawiau, felly, yn annog canolbwyntio ar ddatblygu hunan-barch disgyblion a pharch tuag at eraill. Mae'r awdurdodau addysg lleol a'r ysgolion yn rhydd i ddatblygu eu ffyrdd eu hunain o ymdrin ag addysg rhyw o fewn y canllawiau sydd ar gael. Gall rhaglenni addysg rhyw a pherthnasoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda annog pobl ifanc, nad ydynt yn weithgar yn rhywiol, i oedi cyn cael cyfathrach rywiol, ac mae'n gysylltiedig â defnyddio cyfarpar atal cenhedlu yn effeithiol ymysg y bobl ifanc sy'n weithgar yn rhywiol. Mae llawer o raglenni addysg rhyw a pherthnasoedd yn rhoi pwyslais ar wneud menywod ifanc yn ymwybodol o'r caledi cymdeithasol a'r costau cymdeithasol a wynebir wrth fagu plentyn ac yn eu cyflwyno i famau ifanc, sy'n rhannu'u profiadau gyda'u cyfoedion.

Wrth gwrs, mae addysg rhyw a pherthnasoedd yn bwysig i helpu pobl ifanc yng Nghymru i ddiogelu eu hiechyd. Un o nodau allweddol fframwaith strategol y Cynulliad i hybu iechyd rhywiol yng Nghymru yw gwella iechyd cyffredinol a lles emosiynol y boblogaeth drwy alluogi a chefnogi perthnasoedd rhywiol aeddfed. Mae'r nod hwn yn cwmpasu darparu addysg rhyw briodol ac effeithiol i bobl ifanc yn yr ysgol ac o fewn sefydliadau ieuenctid eraill.

Un o'r mesurau a ddefnyddiwn i fesur hyn yw monitro nifer yr achosion o feichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau ac mae'r lefelau uchel yng Nghymru yn peri pryder. Fodd bynnag, yn galonogol, mae ein ffigurau diweddaraf am gyfraddau beichiogi yn yr arddegau yn dangos bod y lefelau wedi gostwng am dair blynedd yn olynol yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Datblygiad Oldway ym Merthyr Tudful

**Rhodri Glyn Thomas:** Sut y cafodd yr asesiad amgylcheddol ei fesur yng nghais cynllunio datblygiad Oldway ym Merthyr Tudful? (WAQ32599)

**Rhodri Glyn Thomas:** Sut y cafodd yr asesiad o'r effaith ar drafnidiaeth ei fesur yng nghais cynllunio datblygiad Oldway ym Merthyr Tudful? (WAQ32600)

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa feini prawf sydd wedi cael eu defnyddio i asesu effaith cais cynllunio datblygiad Oldway ym Merthyr Tudful ar drafnidiaeth? (WAQ32601)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful oedd yn gyfrifol am werthuso'r asesiad amgylcheddol a'r asesiad o'r effaith ar drafnidiaeth mewn perthynas â'r cais cynllunio am ddatblygiad adwerthu ar hen ystâd fasnachol Oldway. Er bod y cyngor wedi cyflwyno'r cais i'r Cynulliad o dan y cyfarwyddiadau siopa a gwyro ar 15 Mai 2003, penderfynwyd ar 5 Mehefin nad oedd angen galw'r cais i mewn. Wrth lunio'r farn honno, rhoddwyd ystyriaeth i effaith y traffig ar y rhwydwaith cefnffyrdd—mater yr oedd cyfarwyddiaeth drafnidiaeth y Cynulliad wedi rhoi ei barn arno i'r awdurdod lleol.

### Cyswllt Ffermio

**Mick Bates:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i newid strwythur grantiau Cyswllt Ffermio? (WAQ32651)

**Carwyn Jones:** Ar 24 Chwefror, cyhoeddais ganlyniad adolygiad cynhwysfawr o Cyswllt Ffermio, a fwriadwyd i gloriannu'r hyn y mae wedi ei gyflawni, nodi meysydd y gellid eu gwella a sut y gellid cryfhau ei weithrediad. Y mae a wnelo un o'r argymhellion strategol pwysicaf i ddod o'r adroddiad ag ailgyfeirio'r grant gwella ffermydd i annog rhoi mwy o ystyriaeth i amgylchedd y fferm a hybu manteision lles anifeiliaid. Derbyniais yr argymhelliad hwn, sy'n cyd-fynd yn llwyr â chyfeiriad diwygiadau'r polisi amaethyddol cyffredin ac â blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r cynlluniau grant eraill heb eu newid i bob pwrpas ond mae'r meini prawf cymhwyso ar gyfer y grant gwella ffermydd wedi cael eu diwygio fel bod modd canolbwyntio'r cymorth ar fesurau sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol. Y prif newidiadau yw:

- bydd buddsoddiadau penodol er budd cynefinoedd bywyd gwyllt, y tirwedd a'r amgylchedd hanesyddol yn dod yn gymwys i gael cymorth grant o dan y grant gwella ffermydd;
- ni fydd unrhyw adeiladau fferm (ac eithrio adeiladau i ddal parlyrau godro a chyfleusterau/cyfarpar sefydlog ar gyfer llaethdai) yn gymwys i gael grant;
- ni fydd ffyrdd na buarthau yn gymwys i gael grant;
- ni fydd buddsoddiadau cyfalaf mewn mentrau moch a dofednod yn gymwys o dan y grant mentrau fferm, ond byddant yn gymwys o dan y cynllun grant gwella ffermydd diwygiedig (mae hyn yn golygu na fydd adeiladau yn gymwys). Fel arall ni fydd y grant mentrau fferm yn newid.

Nid yw'r cyfraddau grant a'r nenfydau, na'r cymorth ychwanegol sydd ar gael i ffermwyr ifanc, wedi newid.

### Polisïau Cynllunio'r Parciau Cenedlaethol

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisïau cynllunio parciau cenedlaethol Cymru? (WAQ32787)

**Carwyn Jones:** Mae'n ofynnol yn ôl paragraff 2.4 o 'Gynlluniau Datblygu Unedol Cymru', Chwefror 2001, i bob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru baratoi cynllun datblygu unedol, neu gynllun datblygu unedol ar y cyd, yn nodi'r polisïau cynllunio ar gyfer ei ardal.

**Rheoli Gwastraff yng Nghymru**

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar reoli gwastraff yng Nghymru? (WAQ32788)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn yr her o wneud y ffordd y rheolir gwastraff yng Nghymru yn fwy cynaliadwy. Ym mis Mehefin 2002, cyhoeddasom 'Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru'.

**Cyfnodau Rhybudd ar gyfer Rheoliadau Symud a Gwaredu Cerbydau 1986**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad i'r diwygiadau arfaethedig i'r cyfnodau rhybudd ar gyfer Rheoliadau Symud a Gwaredu Cerbydau 1986? (WAQ32790)

**Carwyn Jones:** Erbyn 1 Mawrth 2004, yr oedd 13 o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ynghylch y cyfnodau rhybudd ar gyfer Rheoliadau Symud a Gwaredu Cerbydau 1986 wedi dod i law. Nid oedd yr un o'r ymatebion a ddaeth i law yn codi unrhyw wrthwynebiadau sylweddol i gwtogi ar y cyfnodau, er bod nifer fach wedi awgrymu mân newidiadau a fyddai'n gwneud i'r cynigion weithio'n fwy effeithiol yng Nghymru.

**Deddfwriaeth i gael Gwared ar Gerbydau sydd wedi eu Gadael**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amserlen Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol i gyflymu'r broses o gael gwared ar gerbydau sydd wedi eu gadael? (WAQ32791)

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn disgwyl i'r swyddogaethau gael eu trosglwyddo'n ffurfiol, a bydd hynny'n caniatáu imi gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru. Fel paratoad ar gyfer y trosglwyddo hwnnw, yr wyf eisoes wedi ymgymryd ag ymarferiad ymgynghori.

**Rhaglenni Tyrbinau Gwynt yng Nghymru**

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith amgylcheddol y rhaglenni tyrbinau gwynt yng Nghymru? (WAQ32794)

**Carwyn Jones:** Egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ynni adnewyddadwy yw ysgogi datblygu sy'n gwarchod adnoddau naturiol ac yn parchu'r amgylchedd. Fel unrhyw fath o ddatblygu, mae ynni adnewyddadwy yn cael effaith ar yr amgylchedd. Mae'r polisi a'r cyngor technegol presennol a diwygiedig yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng datblygu technolegau adnewyddadwy a chadw at egwyddorion amgylcheddol hanfodol.

**Gwella Ansawdd y Dŵr Nofio o gwmpas Arfordir Cymru**

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth y Cynulliad i wella rhagor ar ansawdd y dŵr nofio o gwmpas arfordir Cymru? (WAQ32796)

**Carwyn Jones:** Rhoddaf flaenoriaeth uchel i sicrhau bod dyfroedd ymdrochi Cymru o ansawdd dda ac yr wyf yn parhau i gefnogi ymdrechion i gynnal a gwella'r safonau uchel cyfredol. Y llynedd, cyfarfu pob un ond un o'n dyfroedd ymdrochi â safonau ansawdd gorfodol Ewrop a chydymffurfiodd y nifer uchaf erioed o'n dyfroedd â'r safonau canllaw llymach.

### Diogelu Amgylchedd Naturiol Cymru

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth y Cynulliad i ddiogelu amgylchedd naturiol Cymru? (WAQ32797)

**Carwyn Jones:** Mae 'Cymru: Gwlad Well' yn nodi ein hagenda strategol gyfredol i ddiogelu amgylchedd naturiol godidog Cymru a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy. Yr ydym yn symud hyn ymlaen drwy ystod o bolisïau a rhaglenni gan gynnwys 'Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru', rhwydwaith Natura 2000 o safleoedd cadwraeth natur pwysig, 'Polisi Cynllunio Cymru' a'n mentrau amaeth-amgylcheddol. Yr wyf hefyd am ddatblygu strategaeth amgylcheddol newydd i Gymru, a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu polisi yn y maes hwn i'r dyfodol.

### Cnydau GM

**Glyn Davies:** A gafodd y Gweinidog unrhyw drafodaethau â'r Gweinidog gwladol dros yr amgylchedd ac amaeth-amgylchedd, Elliot Morley AS, cyn ei ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ar gnydau GM ar 24 Chwefror 2004, ac a wnaiff amlinellu natur y trafodaethau hynny? (WAQ32798)

**Glyn Davies:** A gafodd y Gweinidog drafodaethau ag unrhyw Weinidog yn DEFRA cyn ei ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ar gnydau GM ar 24 Chwefror 2004, ac a wnaiff amlinellu natur y trafodaethau hynny? (WAQ32808)

**Carwyn Jones:** Do, yr wyf mewn cysylltiad rheolaidd â'm cyd-Weinidogion yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr ynglŷn ag amryw o faterion gan gynnwys dymuniad y Cynulliad i weld mesurau ar gyfer cydfodoli ledled Prydain Fawr er mwyn diogelu cnydau organig a chonfensiynol rhag cael eu heintio gan gnydau GM.

### Cynllun Stoc Marw

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog roi cymorth ariannol i ffermwyr sy'n gorfod talu fesul anifail i gael gwared ar stoc marw oherwydd yr oedi cyn gweithredu cynllun stoc marw y Llywodraeth? (WAQ32805)

**Carwyn Jones:** Na wnaf. Bydd disgwyl i ffermwyr dalu tanysgrifiad aelodaeth er mwyn elwa o'r cynllun cenedlaethol ar gyfer stoc marw. Ar ben hynny, cyfrifoldeb ffermwyr yw cydymffurfio â Rheoliadau Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2003.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Mesurau Teneurwydd Poblogaeth

**Leighton Andrews:** Pa waith ymchwil mae'r Gweinidog yn ymwybodol ohono o ran priodoldeb mesurau teneurwydd poblogaeth mewn fformiwlâu ariannu y mae adrannau y Cynulliad yn eu harfer? (WAQ31480)

**Leighton Andrews:** Mewn sawl fformiwla ariannu y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu harfer y defnyddir mesurau teneurwydd poblogaeth? (WAQ31481)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 26 Ionawr.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Yn fy ateb i'r cwestiynau ysgrifenedig uchod ar 22 Ionawr, addewais ysgrifennu'n ôl atoch ynglŷn ag ardaloedd tenau eu poblogaeth o ran ymchwil a'r defnydd o hynny mewn fformiwlâu ariannu.

- Ymchwil—ymchwiliwyd i'r defnydd o fesurau teneurwydd poblogaeth mewn fformiwlâu ariannu gan adran economeg Prifysgol Cymru Abertawe a Pion Economics ar y cyd. Cyhoeddwyd eu canfyddiadau mewn adroddiad ar gyfer y Swyddfa Gymreig fel yr oedd ar y pryd o dan y teitl 'A Review of the Approach to Calculating Standard Spending Assessments in Wales' yn 1999. Bu i Brifysgol Caerefrog gynnal ymchwil i effaith poblogaeth drwchus neu denau yn y fformiwlâu a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol personol. Nod yr ymchwil hwn oedd ateb tri chwestiwn: a yw dwysedd poblogaeth yn gweithredu fel ffactor sy'n sbarduno angen, a yw dwysedd poblogaeth yn effeithio ar gost cyflenwi gwasanaethau a beth yw'r ffordd orau o fesur dwysedd poblogaeth os yw'n achosi un neu ddau o'r effeithiau blaenorol? Mae'r gwaith o ddatblygu unrhyw fformiwlâu perthnasol yn parhau. Carwn dynnu sylw, fodd bynnag, at y ffaith nad oes gorfodaeth arnom i fabwysiadu unrhyw fformiwlâu a gynhyrchir drwy'r gwaith hwn. Cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad yw sicrhau ei bod yn rhoi sylw i anghenion penodol Cymru, ac efallai y bydd angen addasu unrhyw fformiwla a fydd yn deillio o'r astudiaeth hon er mwyn iddi ddiwallu ein hanghenion yn well.
- Defnyddio ffactor teneurwydd poblogaeth mewn fformiwlâu ariannu—caiff mesurau teneurwydd eu cymhwyso yn y fformiwlâu ariannu canlynol:
- Y grant ysgolion gwledig ac ysgolion bach—caiff 70 y cant, tua £3.5 miliwn, o'r grant hwn ei ddosbarthu ar sail ffactor sy'n adlewyrchu pa mor denau yw'r boblogaeth. Defnyddir y dangosyddion aneddiadau o'r asesiad gwariant safonol cynradd ac uwchradd.
- GCAH—mae fformiwla dyrannu GCAH yn cynnwys mesur teneurwydd poblogaeth, fel a wnaeth ers nifer o flynyddoedd. Mae'r mesur a ddefnyddir yn fformiwla GCAH yn cael ei alw'n 'anheddiad', er enghraifft, ffactor sy'n cynrychioli'r nifer o bobl yn ardal pob awdurdod addysg lleol sy'n byw y tu allan i ganolfannau poblogaeth o faint penodol.
- Y gronfa datblygu swyddfeydd post—mae'r gronfa hon ar gael i swyddfeydd post o fewn y 125 ardal etholiadol mwyaf ynysig a difreintiedig yng Nghymru. Cafodd y cymunedau cymwys eu rhestru yn unol â mynegai amlamddifadedd Cymru.
- Camddefnyddio sylweddau—bydd £400,000 o adnoddau camddefnyddio sylweddau yn cael eu dosbarthu yn 2004-05 gan ddefnyddio fformiwla ariannu. Mae'r fformiwla hon yn cynnwys pum dangosydd: pa mor gyffredin yw camddefnyddio sylweddau, pa mor gyffredin yw camddefnyddio alcohol, amlamddifadedd, tangyflawni addysgol a pha mor denau yw'r boblogaeth. Cymhwysir y dangosydd teneurwydd poblogaeth i 10 y cant o'r fformiwla ariannu ac mae'n defnyddio dwysedd y boblogaeth fesul km sg a phellter tybiannol rhwng unigolion pe bai'r boblogaeth wedi ei dosbarthu'n gydradd ar draws yr ardal.
- Y grant cynnal refeniw—tua £3 biliwn yw cyfanswm y grant cynnal refeniw yn 2003-04. Caiff y swm hwn ei ddosbarthu drwy fformiwla sy'n ystyried llawer o ffactorau ond mae hefyd yn defnyddio mesurau teneurwydd poblogaeth a gwledigrwydd. Mae'r fformiwla'n defnyddio mesurau o boblogaeth aneddiadau o fewn ffiniau awdurdod lleol ynghyd â chyfran y boblogaeth sy'n byw y tu allan i'r prif aneddiadau.
- Iechyd—caiff teneurwydd y boblogaeth ei ystyried yn y fformiwla anghenion uniongyrchol wrth fwrw cyfrif o gyfrannau fformiwla gwasanaethau iechyd cymunedol ac ysbytai. Defnyddir y cyfrannau hyn i wneud addasiadau i ddyraniadau'r byrddau iechyd lleol. Mae'r fformiwla'n cynnwys addasiad costau gwledig a gymhwysir i 7.5 y cant o'r gwariant, sy'n cyfateb i'r elfennau o fewn gwasanaethau iechyd cymunedol sy'n golygu llawer o deithio. Seilir yr addasiad costau gwledig ar addasiad i Gymru o fodel i amcangyfrif costau ychwanegol a ddatblygwyd ar gyfer yr adolygiad dyrannu adnoddau yn yr Alban ('Fair Shares for All'—adroddiad terfynol Adran Iechyd Gweithrediaeth yr Alban 2000).

**Diffiniadau o Gefn Gwlad sy'n cael eu defnyddio yn y Fformiwlâu Ariannu**

**Leighton Andrews:** Faint o ddiffiniadau o gefn gwlad sy'n cael eu defnyddio yn y fformiwlâu ariannu y mae'r Cynulliad yn eu harfer? (WAQ31482)

*Ateb tefynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 26 Ionawr.*

**Sue Essex:** Yn fy ateb i'r cwestiwn ysgrifenedig uchod ar 22 Ionawr, addewais ysgrifennu'n ôl atoch ynglŷn â gwledigrwydd o ran y diffiniad ohono a'r ffordd y caiff ei ddefnyddio o fewn y fformiwlâu ariannu a ddefnyddir gan y Cynulliad.

Mae cyllideb y Cynulliad ar gyfer 2003-04 yn cynnwys cyllideb amaethyddiaeth o dros £246 miliwn i ymdrin yn benodol â materion cefn gwlad. Mae'r swm hwn yn cyfrannu tuag at gymorthdaliadau ffermio sydd wedi'u seilio'n bennaf ar niferoedd da byw a nifer y cynlluniau sy'n canolbwyntio'n llwyr ar faterion gwledig megis: Tir Gofal; grantiau addasu ffermydd; grantiau marchnata; gwasanaethau cymorth gwledig; sgiliau entrepreneuraidd i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig ac arsyllfa wledig Cymru.

Yn ychwanegol at y grantiau hyn, mae'r Cynulliad yn caniatáu ar gyfer materion gwledig mewn nifer o'i fformiwlâu ariannu. Mae'n amhosibl rhoi diffiniad penodol o wledigrwydd o ran y defnydd a wneir ohono mewn fformiwlâu. Y rheswm am hyn yw bod nifer o raglenni gwahanol yn ymateb i anghenion gwahanol a bydd pob rhaglen felly yn asesu gwledigrwydd mewn ffordd sy'n briodol i ddiben y rhaglen honno. Gallaf, fodd bynnag, esbonio'r ffactor gwledigrwydd yn rhai o brif elfennau cyllideb y Cynulliad, sef Amcan 1 a'r rhaglen gweithredu dros gymunedau gwledig a'r dyraniad ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol.

- y Rhaglen Gweithredu dros Gymunedau Gwledig—o fewn rhaglen Amcan 1, mae blaenoriaeth 5, mesurau 4, 6 a 8 wedi cael eu targedu'n benodol i gwmpasu rhannau gwledig ardal Amcan 1. Dewiswyd yr ardaloedd sy'n gymwys ar gyfer mesurau 4 a 6 yn ôl dwysedd poblogaeth o lai na phedwar person yr hectar, sef dull a fabwysiadwyd cyn hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol i weinyddu'r grant trafnidiaeth wledig. Er bod y dull hwn yn dderbyniol yng nghyd-destun gweithgarwch a ariannir drwy fesurau 4 a 6, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar bobl a chymunedau, ar gyfer blaenoriaeth 5, mesur 8, sy'n canolbwyntio ar weithgarwch arfordirol ac afonol fel ffordd o ysgogi budd economaidd, mae angen i'r diffiniad o gefn gwlad gwmpasu tir gwledig, coridorau afonydd ac ardaloedd arfordirol. O dan y mesur hwn, mae siroedd Dinbych, Conwy, Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro yn wledig, tra bo'r dull tair haen yn cael ei gymhwyso i siroedd y De:
- ar lefel ward, os bu mwy na 50 y cant o arwynebedd tir y ward yn destun arolwg cam 1 Cyngor Cefn Gwlad Cymru, sef y system safonol ar gyfer dosbarthu a mapio tir anadeiledig ym mhob rhan o Brydain Fawr, bydd ardal yn cael ei hystyried yn wledig os yw o fewn 50 milltir i gwrs dŵr sydd o fewn ardal cynllun gweithredu amgylcheddol lleol, lle mae prosiect arolygu cynefinoedd afonydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi

  dangos bod mwy na 50 y cant o'r arwynebedd tir yn wledig. Defnyddir arolwg cynefinoedd rhynglanw Cyngor Cefn Gwlad Cymru i ddynodi'r ardaloedd hynny ar yr arfordir sydd i gael eu cyfrif yn wledig.

- Gwasanaethau meddygol cyffredinol—defnyddir y dyraniad hwn i fwrw cyfrif o'r cyllid ar gyfer practisiau meddygon teulu. Mae'r fformiwla gyffredinol yn cynnwys addasiad gwledigrwydd a fwriadwyd i adlewyrchu costau anorfod cyflenwi gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Mae addasiadau hefyd ar gyfer costau staff y tu allan i'r fformiwla. Defnyddir dau fesur sydd wedi eu bwriadu i adlewyrchu gwledigrwydd: dwysedd y boblogaeth, fel y'i mesurir yn ôl personau fesul hectar yn y wardiau y mae'r practis yn denu ei gleifion ohonynt, a gwasgariad y boblogaeth, fel y'i mesurir gan y pellter ar gyfartaledd rhwng cleifion a phrif feddygfa'r practis. Seiliwyd y fformiwla ar gyfer yr addasiad gwledigrwydd ar ddadansoddiad o wybodaeth Cyllid y Wlad ynglŷn â threuliau meddygon teulu.

### Cyllidebau Blynyddol Cynghorau

**Glyn Davies:** Pa ganllawiau sydd wedi'u rhoi i awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch y lefel briodol o falans y dylid ei gadw fel canran o gyllideb flynyddol pob cyngor? (WAQ32552)

**Sue Essex:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ynglŷn â'r lefel briodol o falansau y dylai awdurdodau lleol eu cadw. Mater i bob awdurdod yw penderfynu drosto'i hun ar lefel o falansau yng ngoleuni ei amgylchiadau. Fodd bynnag, mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wedi cyhoeddi canllawiau proffesiynol (nodyn cyfarwyddyd ar gronfeydd a balansau awdurdodau lleol, Ionawr 2003).

**Cyfanswm Balansau Cynghorau Sir yng Nghymru**

**Glyn Davies:** Beth yw cyfanswm balansau Cyngor Sir Ceredigion a pha ganran o gyllideb flynyddol y cyngor y mae hyn yn ei chynrychioli? (WAQ32553)

**Glyn Davies:** Beth yw cyfanswm balansau Cyngor Sir Caerfyrddin a pha ganran o gyllideb flynyddol y cyngor y mae hyn yn ei chynrychioli? (WAQ32554)

**Glyn Davies:** Beth yw cyfanswm balansau Cyngor Sir Gwynedd a pha ganran o gyllideb flynyddol y cyngor y mae hyn yn ei chynrychioli? (WAQ32555)

**Glyn Davies:** Beth yw cyfanswm balansau Cyngor Sir Powys a pha ganran o gyllideb flynyddol y cyngor y mae hyn yn ei chynrychioli? (WAQ32559)

**Glyn Davies:** Beth yw cyfanswm balansau Cyngor Sir Penfro a pha ganran o gyllideb flynyddol y cyngor y mae hyn yn ei chynrychioli? (WAQ32560)

**Sue Essex:** Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth a geisir mewn ymateb i'r cwestiynau hyn. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i dynodi ag (a) yn cynnwys amcangyfrifon o gronfeydd ysgolion a chronfeydd eraill sydd wedi'u clustnodi a chronfeydd sydd heb eu dyrannu, fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2003. Nid yw'n cynnwys arian wrth gefn cronfeydd pensiwn, balansau'r cyfrif refeniw tai, darpariaethau, symiau a neilltuwyd ar gyfer rhwymedigaethau credyd nac unrhyw dderbyniadau credyd nad ydynt wedi'u cymhwyso.

| Cyngor sir | Cyfanswm balansau (a) (£ miliwn) | Canran o'r gyllideb | Amcangyfrif o'r arian wrth gefn sydd heb ei ddyrannu | Canran o'r gyllideb |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Ceredigion | 10.8 | 11 y cant | 3.6 | 3.7 y cant |
| Caerfyrddin | 29.3 | 13 y cant | 7.6 | 3.3 y cant |
| Gwynedd | 21.6 | 13 y cant | 6.7 | 4.1 y cant |
| Powys | 34.2 | 20 y cant | 5.6 | 3.3 y cant |
| Penfro | 20.0 | 13 y cant | 0 | 0 y cant |
| | | | | |
| Ffynhonnell: Datganiadau cyllideb refeniw (RA) 2003-04 | | | | |

**Hysbysebu am Aelodau i Fyrddau CCNC**

**Leighton Andrews:** Wrth hysbysebu am aelodau i fyrddau cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, ym mha gyhoeddiadau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysebu? (WAQ32563)

**Sue Essex:** Mae'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus fod swyddi penodiadau cyhoeddus yn cael eu hysbysebu mewn ffordd effeithiol a chymesur. O ganlyniad, dim ond swyddi gwag uchel eu proffil ar fyrddau CCNC sy'n cael eu hysbysebu yn y wasg er bod manylion pob swydd wag yn ymddangos ar wefan y Cynulliad (http://www.cymru.gov.uk/recruitment/pubapps-w.htm). Pan fydd swyddi'n cael eu hysbysebu yn y wasg, mae'r cyhoeddiadau a ddewisir yn dibynnu ar natur y swydd, ond fel arfer cânt eu rhoi yn *The Western Mail*, y *Liverpool Daily Post*, *Y Cymro* a *Golwg*.

## Adolygiad o Gynllun Caffael y Cynulliad

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd neu'r diffyg cynnydd o ran gweithredu adolygiad o gynllun caffael y Cynulliad, ac a wnaiff gadarnhau pryd y bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau? (WAQ32574)

**Sue Essex:** Mae'r adolygiad o bolisi caffael y Cynulliad wedi dechrau, ac yr wyf yn disgwyl derbyn adroddiad drafft ym mis Ebrill 2004.

## Cymorth Gorfodol ar gyfer Ardrethi Busnes yn yr Wyddgrug

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog nodi am sawl blwyddyn y bydd cymorth gorfodol—50 y cant ar adeiladau busnes sydd â gwerth trethadwy o £6,000 neu lai—ar gyfer ardrethi busnes yn yr Wyddgrug? (WAQ32629)

**Sue Essex:** Bydd cymorth gorfodol o dan y cynllun rhyddhad ardrethi gwledig yn parhau am y flwyddyn ariannol i ddod, 2004-05, o leiaf. Maes o law, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu ei pholisi ar bob rhyddhad ardrethi busnes i sicrhau mai'r busnesau sy'n fwyaf eu hangen yw'r rhai a fydd yn elwa o'r cynlluniau.

## Cynllun Dyfarndaliad am Wasanaeth a Roddwyd ar gyfer Cynghorwyr

**Nick Bourne:** Beth yw'r amcangyfrif diweddaraf o gostau'r cynllun dyfarndaliad am wasanaeth a roddwyd ar gyfer cynghorwyr? (WAQ32774)

**Sue Essex:** Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu at yr ateb ysgrifenedig, WAQ30691, a roddais i chi ar 15 Rhagfyr 2003.

## Darganfod ac Adeiladu Cyfalaf Dyngarol ar gyfer Buddsoddiad Cyfoes ac yn y Dyfodol

**Eleanor Burnham:** A yw Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cymorth i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i ddarganfod ac adeiladu cyfalaf dyngarol ar gyfer buddsoddiad cyfoes ac yn y dyfodol mewn prosiectau ar draws y wlad? (WAQ32581) [W]

**Sue Essex:** Lle bo hynny'n briodol, yr ydym yn annog y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i fanteisio ar unrhyw ffynonellau ariannu priodol y gellir eu defnyddio er mwyn helpu i gyflawni polisïau Llywodraeth y Cynulliad.

## Adolygiad Llywodraeth y DU o'r Cydbwysedd Cyllido ar gyfer Llywodraeth Leol

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y goblygiadau posibl i gyllideb y Cynulliad yn sgîl adolygiad y Cynulliad a Llywodraeth y DU o'r cydbwysedd cyllido ar gyfer llywodraeth leol? (WAQ32780)

**Sue Essex:** Yr ydym yn ddiweddar wedi cyhoeddi'r papur ymgynghori, 'The Balance of Local Authority Funding in Wales', sy'n ceisio barn am amryw o ffactorau sy'n effeithio ar y cydbwysedd rhwng arian a godir yn lleol a'r arian a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad. Nid yw'n bosibl nodi'r goblygiadau i gyllideb y Cynulliad cyn inni gael canlyniad yr ymgynghori hwnnw.

## Hynt yr Adolygiad o Wariant

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt ei hadolygiad o wariant? (WAQ32782)

**Sue Essex:** Mae'r adolygiad o wariant yn mynd rhagddo fel a fwriadwyd. Bydd yn dylanwadu ar ein penderfyniadau am gyllideb ddrafft 2004 y byddwn yn ymgynghori yn ei chylch yn yr hydref. Dywedaf ragor am yr amserlen ar gyfer gwahanol gamau'r adolygiad o wariant wrth wneud fy natganiad am y gyllideb atodol yn ddiweddarach y mis hwn. Bryd hynny, gallaf roi rhagor o fanylion am sut y gofynnir i'r Pwyllgorau gyfrannu at y broses a chyflwyno eu barn am y blaenoriaethau gwario.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Oncolegwyr Ymgynghorol (Cymhareb Fesul Pen o'r Boblogaeth)

**Val Lloyd:** A all y Gweinidog roi manylion y gymhareb rhwng cleifion ac oncolegwyr ymgynghorol yn ymddiriedolaethau'r byrddau iechyd lleol ledled Cymru, fesul pen o'r boblogaeth? (WAQ29383)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 5 Tachwedd 2003.*

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Ar sail y staff a oedd mewn swyddi ym mis Medi 2002, mae 0.9 o oncolegwyr ymgynghorol fesul 100,000 o boblogaeth yng Nghymru.

Nid yw pob ymddiriedolaeth yng Nghymru yn cyflogi oncolegwyr ymgynghorol. Maent wedi'u canoli yn bennaf mewn canolfannau rhagoriaeth, sy'n derbyn cleifion a gyfeirir o ymddiriedolaethau eraill. Ni fyddai darparu data yn ôl ymddiriedolaeth unigol neu ardal bwrdd iechyd lleol felly yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r ddarpariaeth ymgynghorwyr ar gyfer y boblogaeth yn yr ardaloedd hyn.

### Oncolegwyr Ymgynghorol (Ymddiriedolaeth GIG Abertawe)

**Val Lloyd:** A all y Gweinidog roi datganiad ar faint o oncolegwyr ymgynghorol sydd yn Ymddiriedolaeth GIG Abertawe? (WAQ29384)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro ar roddwyd ar 5 Tachwedd 2003.*

**Jane Hutt:** Ar sail y staff a oedd mewn swyddi ym mis Medi 2002—yr ystadegau diweddaraf sydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru—mae saith oncolegydd clinigol ymgynghorol mewn swydd yn Ymddiriedolaeth GIG Abertawe. Mae gan yr ymddiriedolaeth hefyd ddwy swydd wag. Mae hynny'n rhoi darpariaeth lawn o naw oncolegydd clinigol ymgynghorol o fewn yr ymddiriedolaeth. Gobeithiaf y bydd hyn o fudd ichi.

### Cyfleusterau Dialysis yr Arennau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfleusterau dialysis yr arennau yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (WAQ32434)

**Jane Hutt:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ31081 a gyhoeddwyd ar 29 Ionawr 2004.

### Canran o Boblogaeth Powys sydd wedi'i Chofrestru â Deintydd y GIG

**Glyn Davies:** Pa ganran o boblogaeth Powys sydd wedi'i chofrestru â deintydd y GIG? (WAQ32557)

**Jane Hutt:** Ar 31 Rhagfyr 2003, yr oedd 47.6 y cant o boblogaeth Powys wedi'i chofrestru gyda deintyddion GIG.

### Canran o Boblogaeth Cymru sydd wedi'i Chofrestru â Deintydd y GIG

**Glyn Davies:** Pa ganran o boblogaeth Cymru sydd wedi'i chofrestru â deintydd y GIG? (WAQ32558)

**Jane Hutt:** Ar 31 Rhagfyr 2003, yr oedd 50.7 y cant o boblogaeth Cymru wedi'i chofrestru gyda deintyddion GIG.

### Gwasanaethau Anffrwythlondeb gan Gomisiwn Iechyd Cymru

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y broses o roi'r cyfrifoldeb am gomisiynu pob gwasanaeth anffrwythlondeb i Gomisiwn Iechyd Cymru? (WAQ32561)

**Jane Hutt:** Trosglwyddodd y cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau anffrwythlondeb trydyddol, gan gynnwys technegau in-vitro, i Gomisiwn Iechyd Cymru o 1 Ebrill 2003.

Ym mis Ebrill 2005, bydd gan bob claf newydd y mae angen IVF arno hawl i hyd at un cwrs o driniaeth a bydd yr un meini prawf cymhwyso yn cael eu defnyddio, ni waeth ymhle yng Nghymru y maent yn byw.

### Pobl Hŷn sy'n derbyn Gofal Ysbyty (Ers Mwy na 12 Mis)

**Leighton Andrews:** Faint o'r bobl hŷn sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd a fu'n derbyn gofal mewn ysbyty ers mwy na 12 mis? (WAQ32583)

**Jane Hutt:** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch yn cael ei chadw'n ganolog.

### Cadeiryddion y Byrddau Iechyd Lleol (Cysylltiadau Gwleidyddol)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog restru cysylltiadau gwleidyddol cadeiryddion y byrddau iechyd lleol? (WAQ32592)

**Jane Hutt:** Nid yw'n ofynnol i gadeiryddion y byrddau iechyd lleol ddatgelu eu cysylltiadau gwleidyddol. Fodd bynnag, dyma'r wybodaeth am y pedwar cadeirydd sydd wedi gwirfoddoli'r wybodaeth hon:

| Enw'r Cadeirydd | Bwrdd Iechyd Lleol | Cysylltiad Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Dr W Roberts | BILl Ynys Môn | Plaid Cymru |
| Dr R Thomas | BILl Merthyr Tudful | Llafur |
| Mrs S Pritchard | BILl Sir Fynwy | Llafur |
| Mr C Man | BILl Powys | Llafur |

### Gostwng nifer y Merched sy'n Beichiogi'n Anfwriadol

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddisgrifio pa gamau sy'n cael eu cymryd i ostwng nifer y merched sy'n beichiogi'n anfwriadol yng Nghymru? (WAQ32603)

**Jane Hutt:** Yn 2000, lansiwyd cynllun gweithredu'r Cynulliad 'Fframwaith Strategol ar gyfer Hybu Iechyd Rhywiol yng Nghymru'. Un o amcanion y strategaeth yw gostwng y cyfraddau beichiogi anfwriadol ymysg merched yn eu harddegau. Ymysg y camau a roddwyd ar waith mae ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc o gyfarpar atal cenhedlu brys, cynllun grant £250,000 i ariannu prosiectau sy'n ei gwneud yn haws i'r rhai sy'n fwyaf tebygol o feichiogi yn eu harddegau i gael gafael ar gondomau, canllawiau ar ddarparu gwasanaethau iechyd rhywiol i bobl ifanc a dyraniad o £1,800,000 dros y tair blynedd diwethaf i gefnogi mentrau iechyd rhywiol lleol, sy'n cynnwys datblygu canolfannau galw heibio i bobl ifanc, prosiectau addysg gymunedol yn y sector gwirfoddol, a darparu cyfarpar atal cenhedlu brys am ddim mewn fferyllfeydd.

Ymdrinnir â beichiogi yn yr arddegau hefyd drwy dri modiwl gwahanol yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i blant. Mae pa mor hawdd yw hi i bobl ifanc fanteisio ar wasanaethau cynghori ynghylch atal cenhedlu yn cael ei adolygu ar hyn o bryd fel rhan o adolygiad ehangach o'r ddarpariaeth gwasanaeth iechyd rhywiol yng Nghymru.

Cafodd iechyd rhywiol ei wneud yn flaenoriaeth i bartneriaethau pobl ifanc yn 2004-05 ac mae canllawiau newydd y Cynulliad ar addysg rhyw a pherthnasoedd yn cefnogi gwaith mewn ysgolion. Yn galonogol, mae'r gyfradd feichiogi dan 18—46 fesul 1,000 o fenywod rhwng 15 a 17 oed—20 y cant yn is na'r lefel frig o 57 fesul 1,000 o fenywod rhwng 15 a 17 oed yn 1998.

**Gwasanaethau Mamolaeth (Targedau Adrannol)**

**Kirsty Williams:** Pa dargedau adrannol a bennwyd ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth, yn enwedig mewn perthynas â bydwragedd? (WAQ32630)

**Jane Hutt:** Lansiais bapur gwybodaeth 4 'Gwireddu'r Potensial' o dan y teitl 'Y Dyfodol mewn Dwylo Diogel yng Nghymru' ym mis Mehefin 2002. Yr oedd y papur yn nodi targedau penodol ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Hyd yma, mae pob ymddiriedolaeth wedi cyrraedd y targed o sefydlu llwybr clinigol ar gyfer genedigaeth arferol—targed a bennwyd ar gyfer mis Mawrth 2004. Mae pob ymddiriedolaeth hefyd wedi cyrraedd y targed o sefydlu arf priodol i gynllunio'r gweithlu erbyn mis Rhagfyr 2003 er mwyn iddynt allu asesu anghenion y gweithlu ar y pryd ac i'r dyfodol.

Mae ymddiriedolaethau'n gweithio ar hyn o bryd tuag at gynyddu nifer y genedigaethau cartref i 10 y cant erbyn 2007 ac yn gweithio tuag at greu gwasanaeth mamolaeth lle mae 60 y cant o'r gofal yn cael ei reoli gan fydwragedd ar draws Cymru erbyn 2005. Bydd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i blant, a fydd yn destun ymgynghori yn yr haf, yn gosod safonau ym maes gwasanaethau mamolaeth.

**Nifer y Bydwragedd yn y GIG yng Nghymru ers 1999**

**Kirsty Williams:** Faint o fydwragedd a fu'n gweithio i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn ers 1999, a hynny (a) fesul pen, a (b) fel ffigur cyfwerth ag amser cyflawn? (WAQ32631)

**Jane Hutt:** Mae nifer y bydwragedd cofrestredig yn GIG Cymru dros y blynyddoedd rhwng 1999 a 2002 fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| 1999 | 1,438 (person) | 1,075.0 (CAC) |
| 2000 | 1,485 (person) | 1,041.3 (CAC) |
| 2001 | 1,604 (person) | 1,129.9 (CAC) |
| 2002 | 1,568 (person) | 1,120.2 (CAC) |

Mae'r ffigurau'n seiliedig ar nifer y staff ar 30 Medi. Nid yw ffigurau 2003 ar gael eto.

**Gwasanaethau Deintyddol y GIG yng Nghymru**

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch safbwynt y Llywodraeth ar gyflwr gwasanaethau deintyddol y GIG? (WAQ32633)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cyflwr gwasanaethau deintyddol y GIG yn sir Gaerfyrddin? (WAQ32635)

**Jane Hutt:** Mae'r anawsterau y mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio cael gwasanaeth deintyddol gan y GIG mewn rhannau gwledig a threfol o Gymru yn hen gyfarwydd inni. Cymerwyd camau i ymdrin â hynny drwy fenter ddeintyddol Cymru, sy'n rhoi cymhellion ariannol i ddeintyddion sy'n barod i ddarparu triniaeth ddeintyddol drwy'r GIG. Mae'r camau sy'n cael eu cymryd wedi'u seilio ar wneud

darpariaeth o fewn y GIG yn opsiwn deniadol i ddeintyddion gan nad oes gan y Cynulliad bwerau i gyfarwyddo deintyddion i weithio mewn unrhyw ardal arbennig.

Yr wyf yn cydnabod, fodd bynnag, nad yw'r fenter yn ddigon ar ei phen ei hun, a chymerodd Llywodraeth y Cynulliad ddarpariaeth yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2003 i ddarparu pwerau i'r Cynulliad i lunio rheoliadau yn ymwneud â gwasanaethau deintyddol sylfaenol. Bydd y newidiadau hyn yn hwyluso'r gwaith o ddiwygio gwasanaethau deintyddol y GIG ac yr ydym yn ystyried cynigion i gyflwyno contract deintyddiaeth newydd. Byddaf yn gallu dweud cyn bo hir ba ddull gweithredu y byddwn yn ei fabwysiadu yng Nghymru.

**Anhwylderau Bwyta (Adroddiad y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol)**

**Ieuan Wyn Jones:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu adroddiad y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol ar anhwylderau bwyta, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2004? (WAQ32638)

**Jane Hutt:** Cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol ei ganllawiau clinigol i'r GIG ar reoli anhwylderau bwyta yng Nghymru a Lloegr ar 28 Ionawr. Bydd hyn yn gymorth inni wrth inni fwrw ymlaen â'n cynlluniau ein hunain i wella gwasanaethau ar draws y sectorau iechyd meddwl, gan gynnwys anhwylderau bwyta.

Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am ddarparu pob gwasanaeth iechyd, yn cynnwys cymorth i bobl sy'n dioddef anhwylder bwyta, a dylent ystyried y canllawiau hyn yn llawn wrth asesu anghenion iechyd lleol a chynllunio gwasanaethau.

**Ymgyrch Recriwtio Genedlaethol ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol**

**David Lloyd:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynnal ymgyrch recriwtio genedlaethol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol? (WAQ32639)

**Jane Hutt:** Mater i gyflogwyr unigol yn y sector gofal cymdeithasol yw rheoli materion gweithlu, gan gynnwys recriwtio a chadw staff. Fodd bynnag, mae gan y Cynulliad rôl strategol a bu codi proffil y sector yn elfen allweddol o'r rôl honno. Yr ydym wedi gwneud hynny drwy'r pecyn recriwtio a gyrfaoedd, 'Wynebau Gofal', a baratowyd gan Gyngor Gofal Cymru, a thrwy gefnogi nifer o ffeiriau swyddi ledled y wlad. Gwyddom fod nifer o fentrau wedi'u sefydlu'n lleol ac yn rhanbarthol o ganlyniad i lwyddiant 'Wynebau Gofal' a'r ffeiriau swyddi cyntaf. Dyma'r lefel orau i anelu'r rhan fwyaf o ymdrechion recriwtio'r sector ati. Byddai angen felly i unrhyw ymgyrch genedlaethol ddangos y gallai ychwanegu gwerth at y mentrau lleol a rhanbarthol hyn.

**Cartref Nyrsio Pentwyn House, Caerdydd**

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch unrhyw drafodaethau y mae wedi eu cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ymwneud â phreswylwyr cartref nyrsio Pentwyn House, Caerdydd? (WAQ32643) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Nid wyf wedi cael trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â phreswylwyr cartref nyrsio Pentwyn.

**Gwella Bywydau'r Rhai sy'n Dioddef o Glefyd Niwronau Motor**

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella bywydau'r rhai sy'n dioddef o glefyd niwronau motor yng Nghymru? (WAQ32644)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw darparu gwasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau niwrolegol. Rhaid i'r byrddau asesu'r anghenion yn lleol a, chan weithio gydag

ymddiriedolaethau'r GIG, y sector gwirfoddol ac eraill, gynllunio a blaenoriaethu eu gwasanaethau iechyd er mwyn diwallu'r anghenion hynny gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Fel rhan o adolygiad Comisiwn Iechyd Cymru o'r gwyddorau nerfol arbenigol, mae'r gweithgor cyflyrau hirdymor yn edrych ar y llwybr gofal i gleifion sydd â chlefyd niwronau motor. Mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o Gynghrair Niwrolegol Cymru a Chymdeithas Clefyd Niwronau Motor. Disgwylir i'r grŵp adolygu adrodd yn haf 2004.

### Taliadau Uniongyrchol i Bobl Hŷn

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa gynnydd a gafwyd o ran ei gwneud yn ofyniad statudol ar awdurdodau lleol i dalu taliadau uniongyrchol i bobl hŷn? (WAQ32815)

**Jane Hutt:** Yr ydym wrthi'n ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch rheoliadau drafft a fydd yn gwireddu fy ymrwymiad i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig taliadau uniongyrchol i bob person 65 oed a throsodd erbyn diwedd 2004. Bydd y cyfnod ymgynghori yn gorffen ar 9 Ebrill. Bydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn craffu ar y rheoliadau drafft yn ystod mis Mehefin. Yn amodol ar ffrwyth yr ymgynghori a thrafodaethau'r Pwyllgor, ein nod yw ceisio cytundeb y Cynulliad i'r rheoliadau ym mis Gorffennaf.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Gwella Cymunedau Difreintiedig

**William Graham:** A yw'r Gweinidog wedi llunio unrhyw bolisïau ar y cyd â Gweinidogion eraill yn y Cynulliad er mwyn gwella cymunedau difreintiedig yng Nghymru? (WAQ32541) [R]

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Yr wyf yn trafod yr angen i dargedu polisïau a rhaglenni eraill at ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf gyda Gweinidogion eraill y Cynulliad. Er enghraifft, mae Cymorth, y gronfa gymorth i blant a phobl ifanc, yn cael ei thargedu at yr ardaloedd hynny yn yr un modd â chynllun peilot cychwynnol y Cynulliad i roi brecwastau am ddim mewn ysgolion.

### Camddefnyddio Cyffuriau

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru? (WAQ32543)

**Edwina Hart:** Byddaf yn gwneud datganiad ar hyn yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 2 Mawrth.

### Mentrau Adfywio Cymunedol yn Nelyn

**Sandy Mewies:** Ers 1999, faint o arian y mae'r Cynulliad wedi'i roi i fentrau adfywio cymunedol yn Nelyn? (WAQ32544)

**Edwina Hart:** Nid yw'r ffigurau i gyd ar gael fesul etholaeth, ond gallaf ddarparu manylion ariannu yn ymwneud â fy mhortffolio i.

Yn y pedair ardal Cymunedau yn Gyntaf yn Nelyn, mae'r dyraniadau canlynol wedi cael eu gwneud er 2001:

| | |
|---|---|
| Castell y Fflint | £128,047.63 |
| Cymdogaethau Treffynnon | £138,465 |
| Ystâd Bryn Gwalia | £307,467 |
| Gogledd gwledig sir y Fflint | £116,452 |

Mae ceisiadau am arian pellach a gweithgareddau meithrin gallu yn cael eu hasesu ar hyn o bryd. Dyfarnwyd £400,000 hefyd i Gyngor Sir y Fflint ar gyfer gweithgareddau chwarae a hamdden. Er mis Tachwedd 2002, dyrannwyd £614,067 i brosiectau cymunedol yn Nelyn o dan raglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol. Dyma nhw:

| | |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Broli Cymraeg | £245,558 |
| Cyngor ar bopeth sir y Fflint | £220,401 |
| Cyngor gwirfoddol lleol sir y Fflint | £148,108 |

Mae'r prosiectau canlynol o dan gronfa adfywio lleol (heb arian cyfatebol) yr awdurdodau lleol ar waith yn Nelyn:

| | |
|---|---|
| Rhaglen adfywio Treffynnon | cynigiwyd grant o £1.53 miliwn |
| Strategaeth rheoli traffig y Fflint | cynigiwyd grant o £890,000 |

Yn ogystal, mae'r prosiectau canlynol ar waith ledled sir y Fflint:

| | |
|---|---|
| Cyngor gwasanaethau gwirfoddol sir y Fflint | cynigiwyd grant o £100,000 |
| CGS sir y Fflint—cymorth uniongyrchol | cynigiwyd grant o £83,843 |
| CGS sir y Fflint —prosiect cymorth ariannu GG | cynigiwyd grant o £320,198 |

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi £1.2 miliwn i Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo i ddarparu cymorth grant sydd wedi ei anelu at adfywio ardaloedd hen feysydd glo Cymru. Mae'r grantiau a roddwyd yn 2003-04 yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Cynllun menter y trefi bach a'r pentrefi | £23,776 |
| Prosiect her iroli ar gyfer newid—Mostyn | £6,850 |
| Prosiect coffa Trelawnyd | £1,500 |

Mae cylch gwaith Groundwork Cymru yn un cenedlaethol, ac mae'r pedair ymddiriedolaeth leol yn cynnal prosiectau ar hyd a lled ardaloedd saith o awdurdodau lleol Cymru. Mae Groundwork Wrecsam a Sir y Fflint wedi derbyn cyfanswm o £207,000 ers iddo ddechrau gweithio yn sir y Fflint yn 2001-02.

**Mentrau Adfywio Cymunedol yn Alun a Glannau Dyfrdwy**

**Carl Sargeant:** Ers 1999, faint o arian mae'r Cynulliad wedi'i roi i fentrau adfywio cymunedol yn Alun a Glannau Dyfrdwy? (WAQ32545)

**Edwina Hart:** Nid yw'r ffigurau i gyd ar gael fesul etholaeth, ond gallaf ddarparu manylion ariannu yn ymwneud â fy mhortffolio i.

Yn ardal Cymunedau yn Gyntaf ystâd Shotton uchaf, dyrannwyd £122,692 ers 2001. Mae ceisiadau am arian pellach a gweithgareddau meithrin gallu yn cael eu hasesu ar hyn o bryd. Dyfarnwyd £400,000 hefyd i Gyngor Sir y Fflint ar gyfer gweithgareddau chwarae a hamdden. Ers mis Tachwedd 2002, dyrannwyd £222,592 i brosiectau cymunedol yn Alun a Glannau Dyfrdwy. Dyma nhw:

| | |
|---|---|
| Canolfan chwaraeon a chymunedol Shotton uchaf | £45,000 |
| Neuadd bentref Mancot a Moor | £100,000 |
| Eglwys St Francis, Sandycroft | £77,592 |

Mae'r prosiectau canlynol o dan gronfa adfywio lleol (heb arian cyfatebol) yr awdurdodau lleol ar waith yn Alun a Glannau Dyfrdwy:

| | |
|---|---|
| Canolfan fasnachol Shotton/Cei Connah | Cynigiwyd grant o £360,000 |
| Gwelliannau amgylcheddol Shotton/Cei Connah | Cynigiwyd grant o £1.26 million |

Yn ogystal, mae'r prosiectau canlynol ar waith ledled sir y Fflint:

| | |
|---|---|
| Cyngor gwasanaethau gwirfoddol sir y Fflint | cynigiwyd grant o £100,000 |
| CGS sir y Fflint—cymorth uniongyrchol | cynigiwyd grant o £83,843 |
| CGS sir y Fflint —prosiect cymorth ariannu GG | cynigiwyd grant o £320,198 |

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi £1.2 miliwn i Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo i ddarparu cymorth grant sydd wedi ei anelu at adfywio ardaloedd hen feysydd glo Cymru. Mae'r grantiau a roddwyd yn 2003-04 yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Cynllun menter y trefi bach a'r pentrefi | £23,776 |

Mae cylch gwaith Groundwork Cymru yn un cenedlaethol, ac mae'r pedair ymddiriedolaeth leol yn cynnal prosiectau ar hyd a lled ardaloedd saith o awdurdodau lleol Cymru. Mae Groundwork Wrecsam a Sir y Fflint wedi derbyn cyfanswm o £207,000 ers iddo ddechrau gweithio yn sir y Fflint yn 2001-02.

**Cymunedau yn Gyntaf (Datblygiadau Diweddaraf)**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau diweddaraf o ran Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ32547)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn rhoi adroddiadau diweddaru rheolaidd i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar hynt rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Mae Huw Lewis AC, y Dirprwy Weinidog dros gyfiawnder cymdeithasol ac adfywio, wedi cynnal adolygiad o'r rhaglen yn ddiweddar, ac fe'i trafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 3 Rhagfyr 2003.

Yn ogystal, mae Cambridge Policy Consultants yn gwerthuso'r rhaglen ar hyn o bryd. Penodwyd grŵp llywio ar gyfer gwerthusiad Cymunedau yn Gyntaf, a bydd y grŵp yn cyfarfod am y tro cyntaf ddiwedd mis Mawrth.

**Ymdrin ag Amddifadedd mewn Ardaloedd Gwledig**

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal â'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ynghylch ymdrin ag amddifadedd mewn ardaloedd gwledig? (WAQ32550)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'm cyd-Weinidogion er mwyn datblygu a chyflwyno amryw o bolisïau a rhaglenni ar draws y portffolios. Mae'r polisïau a'r rhaglenni hyn yn cyfrannu at agenda cyfiawnder cymdeithasol ac maent yn ymdrin â thlodi ac amddifadedd yng Nghymru.

**Ariannu ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf 2004-05**

**Owen John Thomas:** Pa bryd bydd y Gweinidog yn rhoi manylion i awdurdodau lleol am ariannu ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf 2004-05? (WAQ32562) [W]

**Edwina Hart:** Mae ceisiadau am arian Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer 2004-05 gan awdurdodau lleol a chyrff eraill sy'n derbyn grantiau wrthi'n cael eu cloriannu. Rhoddir gwybod i bob corff, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyn gynted ag y bydd cais wedi'i gymeradwyo. Cafwyd anawsterau gyda nifer o ffurflenni cais oherwydd diffygion wrth eu llenwi.